

Tueddiadau **priso** ar gyfer gwasanaethau **cyfathrebu** yn y **DU**



Cynnwys

Adran

Trosolwg	2
----------	---

Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i dueddiadau prisio ar gyfer gwasanaethau ffôn, ffôn symudol, band eang a theledu preswyl yn y DU. Mae'n cwmpasu'r prisiau a gynigir ar gyfer gwasanaethau annibynnol ac wedi'u bwndelu, a'r hyn y mae cwsmeriaid yn ei dalu am y gwasanaethau hyn mewn gwirionedd. Mae'r dadansoddiad hwn yn erbyn cefndir o ddibyniaeth gynyddol ar gysylltedd ar gyfer cyfathrebiadau, gwybodaeth ac adloniant yn ystod y pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn gallu elwa o ystod eang o fargeinion gwerth da, er bod amrywiadau mewn tueddiadau prisio ar draws gwasanaethau cyfathrebu, gyda rhai gwasanaethau'n mynd yn rhatach ac eraill yn ddrutach.

Mae gennym raglen waith sefydledig i helpu cwsmeriaid i gael bargeinion gwell a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg gan ddarparwyr, gan gynnwys talu pris teg am eu gwasanaethau. Rydym eisoes wedi cymryd camau i helpu pobl i siopa o gwmpas yn hyderus, gwneud dewisiadau gwybodus, a chael bargaen deg. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar effeithiolrwydd y mesurau hyn yn yr hydref. Rydym wedi cyhoeddi [diweddariad ar ein gwaith fforddadwyedd](#) ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Ein canfyddiadau

Mae pris gwasanaethau symudol yn gostwng ar gyfer y rhan fwyaf o gwsmeriaid. Gostyngodd cost gyfartalog gwasanaeth symudol SIM-yn-unig yn seiliedig ar ddefnydd cyfartalog 10% yn 2020 er gwaethaf y defnydd cynyddol o lais a data. Mae prisiau SIM-yn-unig talu'n fisol ar gyfer gwasanaethau sydd â thros 1GB o ddata yn parhau i ostwng, ond mae rhai defnyddwyr achlysurol ac isel yn gweld llai o ddewis a phrisiau cynyddol, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau talu wrth ddefnyddio traddodiadol.

Fel arfer, mae cwsmeriaid symudol yn talu pris is os byddant yn cymryd bargaen SIM yn unig.

Mae'n rhatach prynu set llaw ac amser awyr ar wahân na'u cael at ei gilydd gan ddarparwr symudol. Rydym yn amcangyfrif bod y gwahaniaeth mewn pris yn cyfateb i godi APR o hyd at 23% ar gyfer 'benthyciad' set llaw ar gwsmeriaid. Gall hyn fod yn uwch os nad yw cwsmeriaid yn symud i gytundeb SIM-yn-unig pan ddaw eu contract i ben.

Mae prisiau symudol yn y DU yn cymharu'n dda â'r rhai mewn gwledydd eraill. Mae ein dadansoddiad yn cymharu prisiau'r DU â phum gwlad gymharol ac yn gweld bod gan y DU y prisiau symudol unigol isaf yn gyffredinol.

Gostyngodd prisiau bwndeli band eang cyflym iawn a gwibgyswllt yn 2020. Mae'r bwlch rhwng prisiau band eang safonol a chyflym wedi culhau; gostyngodd prisiau wedi'u hyrwyddo ar gyfer gwasanaethau cyflym iawn a gwibgyswllt 11% a pharhaodd prisiau gwasanaethau band eang safonol preswyl wedi'u bwndelu'n ddeuol yn wastad. Mewn rhai achosion roedd gwasanaethau cyflym iawn yn rhatach na'r rhai band eang safonol cyfatebol.

Cododd prisiau rhai gweithredwyr ar gyfer cwsmeriaid newydd, a llawer o gwsmeriaid presennol, yn 2021. Er enghraifft, cododd BT/EE eu prisiau CPI+ 3.9% o fis Mawrth 2021 ar draws llinell dir, band eang, teledu, BT Sport a symudol, mae Three wedi cyflwyno cynnydd mewn prisiau o 4.5%, i'w gymhwyso bob mis Ebrill, ac mae Vodafone wedi cyflwyno cynnydd CPI +3.9% mewn prisiau, unwaith eto i'w cymhwyso bob mis Ebrill.

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n prynu gwasanaethau bwndel yn parhau i elwa o ostyngiadau dros opsiynau unigol. Dengys ein dadansoddiad o 'fasgedi' nodweddiadol o wasanaethau cyfathrebu a brynir gan aelwydydd ei bod yn rhatach i'r rhai sydd â chysylltiad band eang sefydlog brynu gwasanaethau wedi'u bwndelu: amrywiodd yr arbedion cyfartalog o 27% i 41%. Yr eithriad oedd aelwydydd nad oes ond angen gwasanaethau llinell dir a ffôn symudol arnynt; gallant dalu mwy yn y pen draw, gan fod band eang cartref yn rhan allweddol o'r rhan fwyaf o fwndeli gwasanaeth.

Mae'r bwlch rhwng y prisiau a hyrwyddir a'r prisiau rhestr ar gyfer gwasanaethau band eang wedi culhau. Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2021, roedd y pris rhestr cyfartalog ar gyfer bwndeli band eang cyflym iawn a llais £6 y mis yn uwch na'r pris a hyrwyddwyd (i lawr o £7 yn y flwyddyn flaenorol). Ar gyfer gwasanaethau cyflymder safonol, roedd y prisiau rhestr £4 yn uwch (i lawr o £6). Mae cwsmeriaid nad ydynt yn gwneud dim ar ddiwedd eu contract yn aml yn wynebu cynnydd mewn prisiau wrth iddynt symud i'r pris rhestr.

Mae prisiau rhent llinell a rhai pecynnau galwadau wedi codi. Cododd prisiau rhent llinell gyfartalog 4% i £19.62 y mis mewn termau real yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2021, ac mae prisiau pecynnau galwadau gyda'r nos ac ar benwythnosau wedi codi 18% dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae gwasanaethau rhent llinell am bris gostyngol ar gael i bobl nad ydynt yn defnyddio band eang sefydlog.

Mae prisiau teledu-drwy-dalu a hyrwyddir wedi codi, a hefyd rhai gwasanaethau fideo-ar-alw drwy danysgrifiad. Ond gall cwsmeriaid barhau i wneud arbedion drwy gymryd teledu-drwy-dalu fel rhan o bwndel, ac mae gwasanaethau SVoD yn tueddu i fod yn hyblyg ac yn seiliedig ar gontractau misol.

Mae chwarter (24%) o aelwydydd yn adrodd iddynt newid naill ai eu gwasanaeth llinell dir sefydlog, symudol, band eang neu deledu-drwy-dalu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er mwyn osgoi dychwelyd at brisiau rhestr uwch ar ddiwedd contract, mae'n bwysig bod cwsmeriaid yn edrych ar gynigion gan eu darparwr presennol a darparwyr eraill.

Metrigau allweddol


Gwasanaethau band eang

(addaswyd ar gyfer chwyddiant)

Y gwahaniaeth cyfartalog mewn prisiau rhestr rhwng bwndeli band eang cyflym iawn a safonol:




Newid yn y pris rhestr cyfartalog rhwng 2015 a 2020:



Gwasanaethau symudol

Defnydd cyfartalog o wasanaethau symudol ers 2015:



Gostyngodd y premiwm prisiau 5G cyfartalog dros wasanaethau 4G o dros **£21 y mis** ym mis Gorffennaf 2019 i **£3 y mis** ym mis Hydref 2020.

Gwasanaethau wedi'u bwndelu

Mae **80%** o oedolion y DU yn parhau i brynu gwasanaethau cyfathrebu wedi'u bwndelu




Ni wnaeth **51%** o bobl â llinell dir fel rhan o'u gwasanaeth band eang alwad allan yn y tri mis cyn Tachwedd 2020

Gwahaniaethau mewn pris

Y bwlch rhwng y cyfartaledd a hyrwyddwyd a'r rhestrau prisiau wedi lleihau



Cwsmeriaid yn newid cyflenwr (ac eithrio wrth symud cartref)



Roedd **24%** o'r boblogaeth wedi newid un gwasanaeth neu ragor ar gyfer llinell dir sefydlog, symudol, band eang neu deledu drwy dalu yn ystod y 12 mis diwethaf.